

## Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru): Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2.

### Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prif newidiadau a wnaed i'r **Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)** ('y Bil') yn ystod trafodion Cyfnod 2.

### Cefndir

Cyflwynwyd y Bil gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sargaent AC, ar **28 Tachwedd 2011** ac fe'i cyfeiriwyd wedyn gan y Pwyllgor Busnes at y **Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol** ("y Pwyllgor") ar gyfer proses graffu Cyfnod 1. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad Cyfnod 1 ar **30 Mawrth 2012**. Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyfansoddiadol a Materion Deddfwriaethol ei adroddiad ar ddarpariaethau is-ddeddfwriaethol y Bil ar **20 Mawrth 2012**.

Cymeradwywyd y Bil yn unfrydol gan y Cynulliad yng Nghyfnod 1 yn dilyn dadl ynghylch ei egwyddorion cyffredinol yn y Cyfarfod Llawn ar **24 Ebrill 2012**.

Dechreuodd trafodion Cam 2 ar 25 Ebrill. Cyflwynwyd cyfanswm o 49 o welliannau (Llywodraeth Cymru gyflwynodd 43 ohonynt). Ystyriodd a gwareddodd y Pwyllgor y gwelliannau yn ei gyfarfod ar 17 Mai.

Mae rhagor o wybodaeth am y Bil (fel y'i cyflwynwyd) ar gael yn y **Crynodeb o'r Bil** a baratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil.

## Derbyniwyd y gwelliannau a ganlyn yng Nghyfnod 2

Derbyniwyd cyfanswm o 43 o welliannau gan y Pwyllgor yn ystod trafodion Cyfnod 2. Llywodraeth Cymru gyflwynodd yr holl welliannau a dderbyniwyd. Gwrthodwyd yr holl welliannau eraill.

Mae crynodeb o'r newidiadau mwyaf arwyddocaol a wnaed i'r Bil isod:

### Adran 4: Gallu awdurdod deddfu i ddirymu neu ddiwygio is-ddeddfau

- Mae gwelliannau 6 a 7 yn dileu gallu awdurdod deddfu i ddiwygio is-ddeddf. Byddai'r awdurdod, fodd bynnag yn parhau i fod â'r pŵer i ddirymu is-ddeddf a chyflwyno is-ddeddf arall yn ei lle o dan y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil.

### Adran 5: Gallu Gweinidogion Cymru i ddirymu is-ddeddfau

- Mae gwelliant 9 yn disodli'r geiriau "o'r farn" ag "wedi penderfynu" yn is-adran (1) yn ymwneud ag ystyried is-ddeddfau anarferedig a gaiff eu hystyried gan Weinidogion Cymru, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor.
- Mae gwelliant 10 yn ychwanegu gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori â phartion sydd â diddordeb, gan gynnwys cynghorau cymuned, cyn gwneud gorchymyn i ddirymu is-ddeddf, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Cyfansoddiadol a Materion Deddfwriaethol.

### Adran 6: Is-ddeddfau na fydd angen eu cadarnhau

- Mae gwelliant 12 yn ehangu'r broses ymgynghori drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdod deddfu ymgynghori ag unrhyw gyngor cymuned y mae o'r farn ei fod yn debygol o fod â diddordeb mewn is-ddeddf arfaethedig na fydd angen ei chadarnhau, yn unol ag argymhellion y Pwyllgor.

Mae gwelliannau 13 ac 14 yn cynyddu'r cyfnod ymgynghori sylfaenol ar gyfer is-ddeddfau na fydd angen eu cadarnhau o un mis i chwe wythnos, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor.

- Mae gwelliant 15 yn darparu ar gyfer adneuo is-ddeddfau na fydd angen eu cadarnhau, mewn lle yn ardal yr awdurdod deddfu, yn hytrach nag ym mhrif swyddfa'r awdurdod deddfu'n unig. Dywedodd y Gweinidog y byddai canllawiau ar y mater hwn yn cael eu cyflwyno'n ddiweddarach.
- Mae gwelliant 16 yn ychwanegu gofyniad i gopi o'r is-ddeddfau drafft na fydd angen eu cadarnhau gael ei anfon gan awdurdodau deddfu at yr holl gynghorau cymuned y mae'r is-ddeddf yn effeithio arnynt, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor. Yna, bydd gan y cyngor isafswm o chwe wythnos i ystyried yr is-ddeddf ddrafft ac ymateb iddi.

## Adran 7: Is-ddeddfau y bydd angen eu cadarnhau

- Mae gwelliant 18 yn sicrhau bod is-ddeddfau y bydd angen i Weinidogion Cymru eu cadarnhau yn ddarostyngedig i'r un trefniadau ymgynghori statudol a'r is-ddeddfau hynny na fydd angen eu cadarnhau, yn uno ag argymhelliad y Pwyllgor.
- Mae gwelliannau 19 ac 20 yn cynyddu'r cyfnod sylfaenol a ganiateir i gyhoeddi ac adneuo is-ddeddf cyn y mae angen ei chyflwyno i'w chadarnhau gan Weinidogion Cymru, o un mis i chwe wythnos, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor.
- Mae gwelliannau 21 a 22 yn golygu y dylid adneuo is-ddeddfau y mae angen i Weinidogion Cymru eu cadarnhau yn ardal yr awdurdod, yn hytrach nag yn y brif swyddfa'n unig.
- Mae gwelliant 23 ychwanegu gofyniad i sicrhau bod copi o is-ddeddf y bydd angen i Weinidogion Cymru ei chadarnhau gael ei anfon gan yr awdurdod deddfu at yr holl gynghorau cymuned y mae'r is-ddeddf yn effeithio arnynt, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor.

## Adran 18: Canllawiau

- Mae gwelliannau 25 a 26 yn ehangu pwerau Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i'r awdurdodau deddfu mewn perthynas â gwneud a gorfodi is-ddeddfau, yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Cyfansoddiadol a Materion Deddfwriaethol.

## Rhan 1 o Atodlen 1: Is-ddeddfau na fydd angen eu cadarnhau

- Mae gwelliannau 27, 28 a 29 yn ychwanegu'r pwerau i wneud is-ddeddfau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 31 o **Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984** at y Bil fel nad oes angen i Weinidogion Cymru gadarnhau is-ddeddfau a wneir o dan y ddeddfwriaeth hon.

## Y camau nesaf

Caiff fersiwn ddiwygiedig o'r Bil ei pharato'i'n awr gan y Swyddfa Ddeddfwriaeth a'i chyhoeddi ar **dudalen we y Bil** maes o law.

Dechreuodd Cam 3 ar 18 Mai 2012 (y diwrnod ar ôl cwblhau trafodion Cam 2). Mae gan yr Aelodau tan 6pm ar 26 Mehefin 2012 i gyflwyno gwelliannau ychwanegol drwy'r Swyddfa Ddeddfwriaeth ([legislationoffice@wales.gov.uk](mailto:legislationoffice@wales.gov.uk)). Bydd trafodion Cam 3 yn mynd rhagddynt yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Gorffennaf 2012.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y Bil, cysylltwch â Chlerc y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Bethan Davies ([bethan.davies@wales.gov.uk](mailto:bethan.davies@wales.gov.uk)), estyniad 8120, neu Rhys Iorwerth ([rhys.iorwerth@wales.gov.uk](mailto:rhys.iorwerth@wales.gov.uk)), estyniad 8927.